# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 9

CYDWEITHREDU A CHYDWEITHIO GAN Y CYRFF RHEOLEIDDIOL ETC.

### 178 Cydweithredu wrth arfer swyddogaethau

(1) Rhaid i'r cyrff rheoleiddiol gydweithredu â'i gilydd wrth arfer eu swyddogaethau perthnasol os ydynt yn meddwl y bydd cydweithredu o'r fath—

(a) yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y caiff y swyddogaethau hynny eu harfer, neu

(b) yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion cyffredinol.

(2) Rhaid i gorff rheoleiddiol, wrth arfer ei swyddogaethau perthnasol, geisio cydweithredu ag awdurdod perthnasol os yw'r corff rheoleiddiol yn meddwl y bydd cydweithredu o'r fath—

(a) yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae'r corff yn arfer ei swyddogaethau, neu

(b) yn helpu'r corff i gyflawni ei amcanion cyffredinol.

(3) Pan fo corff rheoleiddiol yn gofyn am gydweithrediad awdurdod perthnasol o dan is-adran (2) rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais oni bai—

(a) bod yr awdurdod wedi ei atal rhag cydweithredu yn y modd y gofynnir amdano drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall,

(b) bod yr awdurdod yn meddwl y byddai cydweithredu o'r fath fel arall yn anghydnaws â'i swyddogaethau ei hun, neu

(c) bod yr awdurdod yn meddwl y byddai cydweithredu o'r fath yn cael effaith andwyol ar ei swyddogaethau.

(4) Os yw awdurdod perthnasol yn gofyn am gydweithrediad corff rheoleiddiol, rhaid i'r corff gydymffurfio â'r cais hwnnw oni bai—

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 178. (See end of Document for details)*

(a) bod y corff wedi ei atal rhag cydweithredu yn y modd y gofynnir amdano drwy unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys y Ddeddf hon) neu reol gyfreithiol arall,

(b) bod y corff yn meddwl y byddai cydweithredu o'r fath fel arall yn anghydnaws â swyddogaethau'r corff rheoleiddiol ei hun, neu

(c) bod y corff yn meddwl y byddai cydweithredu o'r fath yn cael effaith andwyol—

(i) ar swyddogaethau'r corff, neu

(ii) ar gyflawni amcanion cyffredinol y corff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 178 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 178 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(h)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 178.